



Tai a Gofal: Diffinio sefydliadau

f2.0 | Hydref 2020

 **Cartrefi
Cymunedol
Cymru** | **Community
Housing
Cymru**

 **cymorth
cymru**
connect • strengthen • influence

Tai a Gofal: Diffinio sefydliadau

Mae llawer o fathau o dai gyda gofal a/neu gymorth ar gael yng Nghymru, gan roi amrywiaeth i breswylwyr gydag anghenion a dewisiadau amrywiol. Gall yr iaith a'r eirfa a ddefnyddir i ddisgrifio tai a llety o'r fath fod yn aneglur, gyda rhai termau'n cael eu defnyddio'n mewn ffordd gwahanol.

Dangoswyd hyn yn ystod pandemig COVID-19 pan gafodd llawer iawn o ganllawiau'n ymwneud â'r sefydliadau hyn eu cynhyrchu'n gyflym. Daeth yn amlwg nad oes diffiniadau cyffredin sy'n galluogi swyddogion a rhanddeiliaid i wahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o ddarpariaeth, sydd weithiau'n arwain at ddryswch am sut y dylai canllawiau fod yn weithredol ar gyfer pob sefydliad.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru wedi paratoi'r canllawiau hyn i geisio ateb yr her yma ac i gefnogi penderfyniadau gwybodus ar weithredu polisi iechyd cyhoeddus a coronafeirws ar ystod o lety â chymorth lle darperir gofal a/neu gymorth. Y nod yw i bob rhanddeiliad fedru bod yn hyderus a chlr wrth drafod y mathau yma o dai a chymorth.

DS:

- Gellir defnyddio'r termau 'llety â chymorth' a 'tai â chymorth' yn gyfnewidiol, a gall y ddau ymddangos yn y canllawiau hyn
- **Mae** y canllawiau hyn yn:
 - cyfeirio at lety a'r gwasanaethau gofal cofrestredig a chymorth cysylltiedig â thai a gaiff weithiau eu darparu yn y sefydliadau hyn
 - ceisio helpu egluro a gwahaniaethu rhwng sefydliadau a gwasanaethau, yn dangos nodweddion arferol pob sefydliad
 - dangos lle bydd Deddf Rhenti Cartrefi (Cymru) 2016, pan daw i rym, yn effeithio ar rai mathau o lety yn y ddogfen hon.
- **Nid** yw'r canllawiau yn:
 - anelu i roi diffiniadau terfynol ar bob sefydliad a gwasanaeth
 - cynnwys gwasanaethau gofal sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, tebyg i ofal preswyl a gofal cartref, gan fod y rhain yn gyffredinol ddealladwy¹
- Mae'r diagramau dilynol yn dangos, mewn dwy wahanol ffordd, y categorïau bras o ofal a chymorth a sut maent yn rhyngweithio. Nid yw'r diagramau yn gyflawn na chynhwysfawr, ac ni fedrant fod, gan eu bod yn dangos dwy system ar wahân sy'n gweithredu mewn gwahanol ffordd. Gall pobl mewn 'gofal' gael mynediad i gymorth a gall pobl mewn 'cymorth' hefyd derbyn gofal. Gall unrhyw berson mewn unrhyw sefydliad yn ddamcaniaethol fod yn derbyn gofal cartref neu gymorth fel y bo'r angen.

¹ I gael rhestr o wasanaethau a gaiff eu rheoleiddio gweler: [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)

Diagram #1

Mae'r diagramau dilynol yn dangos y gorgyffwrdd rhwng grwpiau o fewn y sefydliadau a'r gwasanaethau hyn. Mae nifer y cylchoedd a'r gorgyffwrdd yn dangos cymhlethdod y tirlun hwn ac amrywiaeth y sector; mae hefyd yn dangos pa mor ddryslud y gall y darlun fod heb eglurdeb a dealltwriaeth gyffredin.

Er enghraifft: mae:

- Mae Cysylltu Bywydau a Byw â Chymorth yn eistedd o fewn: **Gofal Cofrestredig, Gofal Cartref, Cymorth** – ond nid Tai â Chymorth
- Mae Tai Gwarchod Tai Gofal Ychwanegol yn eistedd o fewn: **Gofal Cofrestredig, Gofal Cartref, Cymorth a Tai â Chymorth**
- Mae Cymorth fel y bo'r Angen a Tai yn Gyntaf yn eistedd o fewn: **Cymorth** – ond nid Tai â Chymorth neu Ofal.

DS: Ni all y diagram ddangos holl gymhlethdod union fanylion pob model, yn hytrach mae'n ceisio dangos diffiniadau bras i'w deall yn rhwydd. Gweler y tablau ymhellach i lawr am ddisgrifiadau mwy penodol.





Diagram #2

Mae'r diagram yma yn dangos y continwwm o lety â chymorth lle caiff gofal a/neu gymorth eu darparu; mae gofal cofrestredig ar y llaw chwith, a'r sefydliadau'n symud yn raddol tuag at gymorth.

Fe welwch faneri yn rhedeg ar hyd gwaelod y diagram hwn, yn cynnwys grwpiau o wasanaethau a sefydliadau o fewn y continwwm hwn.

DS: Ni all y diagram ddangos holl gymhlethdod manylion pob model, yn hytrach mae'n ceisio dangos diffiniadau bras i'w deall yn rhwydd. Gweler y tablau ymhellach i lawr am ddisgrifiadau mwy penodol.



Byw â Chymorth²

Gelwir hefyd yn	Cymorth ar gyfer byw, gall gynnwys Cysylltu Bywydau
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	Pobl a ystyrir yn agored i niwed oherwydd anghenion tebyg i anabledau dysgu, awtistiaeth, iechyd meddwl neu ddibyniaeth ar alcohol/cyffuriau
Math o wasanaeth/lefel cymorth	<ul style="list-style-type: none"> - Gofal cartref - Gwahanol i ofal preswyl gan fod y denantiaeth ar wahân i'r cymorth a roddir, hyd yn oed os mai'r landlord yw'r darparydd hefyd
Gwasanaethau a gynigir fel arfer	<ul style="list-style-type: none"> - Help domestig - Coginio prydau bwyd - Gofal personol - Mynd i siopa - Amrywio o ychydig oriau yr wythnos i sail 24/7
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, elusennau a darparwyr preifat; fel arfer gyntdeb Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr - Awdurdodau lleol: Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr (os drwy ddarparydd cymorth), tenantiaeth sicr, trwydded - Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym, mae'r math hwn o lety yn debygol o gynnig y Contract â Chymorth Safonol neu'r Contract Safonol
Staffio	Amrywio.
Mynediad	Amrywio. Gall fod â'u drws blaen eu hunain neu rannu mynedfa
Hunangynwysedig	Gallant fod yn dai rhannu neu unedau hunangynwysedig
Gofodau cymunol	Oes
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Budd-dal Tai - Grant Cymorth Tai - Cyllid gofal cymdeithasol oedolion - Cyllid cysylltiedig ag iechyd meddwl
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	<ul style="list-style-type: none"> - Arolygiaeth Gofal Cymru (elfen gofal cartref yn unig) - Mae'r gweithlu gofal wedi cofrestru gydag Gofal Cymdeithasol Cymru - Monitro dan y broses Grant Cymorth Tai os yw'n derbyn y grant

² Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

<https://www.wlga.wales/support-for-living-services-for-people-with-learning-disabilities>

Cysylltu Bywydau	
Gelwir hefyd yn	Lleoliadau Oedolion
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	Pobl gydag anghenion cymorth dros dro neu barhaol, tebyg i bobl hŷn, ymadawyr gofal, goroeswyr strôc, pobl gydag anabledau dysgu, salwch meddwl neu dementia; ac unrhyw oedolyn y dynodwyd fod ganddynt anghenion cymorth a thai.
Math o wasanaeth/lefel cymorth	Cyfateb unigolyn gyda gofalwr cymeradwy sy'n rhannu eu bywyd teuluol a chymunedol, ac sy'n roi gofal a chymorth i'r unigolyn.
Gwasanaethau a gynnigir fel arfer	Gall yr unigolyn symud i mewn gyda'u gofalwr a'u teulu, neu gael ymweliadau rheolaidd yn ystod y dydd a/neu dros nos.
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Os yw trefniant yn hirdymor, bydd rhent a thâl gwasanaeth yn daladwy i'r gofalwr dan Gytundeb Trwydded a chytundeb Cysylltu Bywydau (fel arfer gyda cyfnod hysbysiad o 28 diwrnod) - Ni fydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn effeithio ar y math hwn o gytundeb meddiannaeth.
Staffio	Mae gweithwyr Cysylltu Bywydau yn gwirio, asesu, hyfforddi, monitro a chefnogi gofalwyr Cysylltu Bywydau. Caiff gofal a chymorth uniongyrchol eu darparu gan ofalwyr cymeradwy, hunangyflogedig Cysylltu Bywydau sy'n rhaid iddynt weithio fel rhan o gynllun cofrestredig Cysylltu Bywydau.
Mynediad	Bydd gan unigolion eu hallwedd drws blaen eu hunain os nad oes rhesymau penodol yn erbyn hynny.
Hunangynwysedig	Mae gan unigolion eu hystafell eu hunain o fewn cartref teulu y gofalwr Cysylltu Bywydau.
Gofodau cymunol	Mae'r unigolyn a'r gofalwr Cysylltu Bywydau yn rhannu bywyd teuluol yn cynnwys rhannu gofodau cymunol.
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Budd-dal Tai - Grant Cymorth Tai - Cyllid gofal cymdeithasol oedolion - Cyllid cysylltiedig ag iechyd meddwl - Hunan-gyllido
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	<ul style="list-style-type: none"> - Arolygiaeth Gofal Cymru - Monitro dan y broses Grant Cymorth Tai os yw'n derbyn y grant - Rheolwyr Cysylltu Bywydau wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Tai Gwarchod	
Gelwir hefyd yn	Tai Ymddeol
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	Pobl hŷn, 55+ fel arfer. Mae rhai cynlluniau'n derbyn pobl 50+ oed gyda thystiolaeth feddygol
Math o wasanaeth/lefel cymorth	<ul style="list-style-type: none"> - Dim diffiniad clir o dai gwarchod fel model - Mae anghenion cymorth defnyddwyr gwasanaeth yn amrywio o ddim i uchel iawn - Gall rhai cynlluniau fod yn debyg i lety anghenion cyffredinol; rhoddir cymorth i unigolion mewn ffordd debyg i dai anghenion cyffredinol, yn hytrach na'i ddarparu i bob tenant - Gall yr amgylchedd gael ei addasu i gynnwys socedau uwch a larymau gwifredig.
Gwasanaethau a gynigir fel arfer	<ul style="list-style-type: none"> - Help argyfwng 24 awr drwy system larwm - Gweithgareddau cymdeithasol - Cymorth cysylltiedig â thenantiaeth
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Rhent (tenantiaethau hirdymor, tenantiaeth sicr ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu denantiaeth ddiogel ar gyfer awdurdodau lleol - Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym, Contractau Diogel fydd y prif fath o gontract ar gyfer tai ymddeol - Gall meddianwyr/preswylwyr hefyd brynu eu cartrefi o fewn rhai cynlluniau tai ymddeol
Staffio	Gall gynnwys rheolwr cynllun neu warden ar y safle/gerllaw, a thîm o staff cymorth. Gall swyddogion cymorth fod ar gael gan Swyddogion Tai neu Swyddogion Cymorth Tenantiaeth.
Mynediad	Eu drws blaen eu hunain. Gall mynediad drwy'r prif ddrws gael ei reoli gan unigolion.
Hunangynwysedig	Ydi
Gofodau cymunol	Weithiau
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Talu rhent eu hunain a/neu Fudd-dal Tai (neu Gredyd Cynhwysol) os dan oedran pensiwn os nad yw'r cynllun yn llety penodol, lle gellir budd-dal tai yn lle hynny - Grant Cymorth Tai ar gyfer cymorth/goruchwyliaeth a roddir (llawer llai cyffredin)
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	Monitro dan y broses Grant Cymorth Tai os yw'n derbyn y grant

Tai Gofal Ychwanegol

Gelwir hefyd yn	Byw â Cymorth, Tai Gwarchod Estynedig, Tai Gwarchod Ychwanegol, Tai â Gofal
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl hŷn (55/60+) - Pobl gydag anableddau, problemau symud neu anghenion cymorth neu ofal isel - Pobl heb unrhyw anghenion ychwanegol ar hyn o bryd ond sy'n rhagweld y bydd angen hynny - Pobl gyda llawer o anghenion gofal lle gall Gofal Ychwanegol fod yn well ganddynt na gofal preswyl - Cyplau gyda gwahanol anghenion cymorth neu ofal
Math o wasanaeth/lefel cymorth	<ul style="list-style-type: none"> - Caiff cymorth ei ddarparu'n rheolaidd i rai preswylwyr ond, yn bwysig, nid i bawb. Nid yw bod angen gofal neu cymorth yn amod ar gyfer llawer o gynlluniau Gofal Ychwanegol, ac mae llawer ohonynt yn fwriadol â thenantiaid gydag amrywiaeth o alluoedd ac anghenion. - Nid yw'n rhaid bod gofal a/cymorth yn cael eu darparu'n "fewnol" gan y landlord. Gall gael ei ddarparu gan asiantaethau ar wahân a gomisiynir gan awdurdodau lleol
Gwasanaethau a gynigir fel arfer	<ul style="list-style-type: none"> - Help domestig - Gofal personol - Help argyfwng 24-awr drwy system larwm - Gweithgareddau cymdeithasol - Cymorth cysylltiedig â thenantiaeth - (Weithiau) rai prydau bwyd
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Rhent (tenantiaethau hirdymor, tenantiaeth sicr ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu denantiaeth ddiogel ar gyfer awdurdodau lleol) - Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym, contractau diogel fydd y prif fath o gontract ar gyfer tai ymddeol - Gall meddianwyr/preswylwyr hefyd brynu eu cartref mewn rhai cynlluniau tai ymddeol.
Staffio	<ul style="list-style-type: none"> - Rheolwr cynllun (warden) ar y safle/gerllaw a/neu dîm o staff cymorth - (Weithiau) staff gofal ar y safle
Mynediad	Eu drws blaen eu hunain. Gall mynediad drwy'r prif ddrws gael ei reoli gan unigolion
Hunangynwysedig	Ydi
Gofodau cymunol	Oes
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Talu rhent eu hunain a/neu Fudd-dal Tai (neu Gredyd Cynhwysol os dan oedran pensiwn os nad yw'r cynllun yn llety penodol, lle gellir budd-dal tai yn lle hynny) - Cyllid gofal cymdeithasol oedolion (lle mae unigolion yn derbyn gofal cartref wedi ei gomisiynu) - Grant Cymorth Tai
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	Monitro dan y broses Grant Cymorth Tai os yw'n derbyn y grant Arolygiaeth Gofal Cymru (elfen gofal yn unig)

Model Abbeyfield

Gelwir hefyd yn	
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl oedrannus (80+) - Pobl gyda phroblemau symud, sy'n llesg a/neu'n llai annibynnol
Math o wasanaeth/lefel cymorth	<ul style="list-style-type: none"> - Darpariaeth graddfa fach - Ystafell en-suite o fewn cartref rhannu 8-9 preswilydd - Darperir gofal yn rheolaidd i rai preswylwyr ond nid pawb - Ni chaiff gofal ei ddarparu "yn fewnol" gan y landlord o reidrwydd. Gall gael ei ddarparu gan asiantaethau ar wahân a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol
Gwasanaethau a gynigir fel arfer	<ul style="list-style-type: none"> - Help domestig - Help argyfwng 24-awr drwy system larwm - Gweithgareddau cymdeithasol - Cymorth cysylltiedig â thenantiaeth - Dau bryd o fwyd y dydd
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Tenantiaeth sicr - Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym, Contractau Diogel fydd y prif fath o gontract ar gyfer tai ymddeol
Staffio	Tîm o staff cymorth 7 diwrnod yr wythnos
Mynediad	Drws blaen eu hunain i'r ystafell. Rhannu mynediad i'r cartref
Hunangynwysedig	Na – ystafell en-suite yn unig
Gofodau cymunol	Oes – lolfa ac ardal fwyta
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Talu rhent eu hunain a/neu Fudd-dal Tai - Cyllid gofal cymdeithasol oedolion (lle mae unigolion yn derbyn gofal cartref a gomisiynwyd) - Grant Cymorth Tai (ar gyfer cartrefi gyda chymorth iechyd meddwl/camddefnyddio sylweddau yn unig)
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	Monitro dan y broses Grant Cymorth Tai os yw'n derbyn y grant

Tai Gofal Agos	
Gelwir hefyd yn	
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl hŷn (55/60+) - Cyplau hŷn lle mae angen i un partner ond nid y llall fod mewn cartref gofal - Pobl gyda diagnosis o gyflwr sy'n gwaethygu - Pobl sy'n manteisio o sicrwydd fod help ger llaw hyd yn oed os nad oes ei angen ar hyn o bryd
Math o wasanaeth/lefel cymorth	<ul style="list-style-type: none"> - Fflatiau, tai a byngalos annibynnol yn gysylltiedig â/ar yr un safle â chartref gofal - Mae anghenion gofal a chymorth yn amrywio'n sylweddol - Galluogi preswylwyr i symud i gartref gofal yn y dyfodol os yn briodol
Gwasanaethau a gynigir fel arfer	<ul style="list-style-type: none"> - Cymorth domestig - Gweithgareddau cymdeithasol - Rhai prydau bwyd - Gellir prynu gwasanaethau eraill o'r cartref gofal (e.e. ymateb argyfwng i alwadau larwm, cymorth tymor byr yn dilyn llawdriniaeth)
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Rhent (tenantiaethau hirdymor, tenantiaethau sicr ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu denantiaeth ddiogel ar gyfer awdurdodau lleol) - Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym, Contractau Diogel fydd y prif fath o gontract ar gyfer tai ymddeol - Gall meddianwyr/preswylwyr hefyd brynu eu cartref o fewn rhai cynlluniau tai ymddeol. Mae rhai cynlluniau yn cynnig gwarant prynu'n ôl ar ddiwedd y breswyliaeth.
Staffio	Dibynnu ar y math o gartref gofal y mae'r llety yn gysylltiedig ag ef.
Mynediad	Eu drws blaen eu hunain.
Hunangynwysedig	Ydi
Gofodau cymunol	Oes – gall pobl ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol a phrydau yn y cartref gofal
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Talu rhent eu hunain a/neu Fudd-dal Tai (neu Gredyd Cynhwysol os dan oedran pensiwn os nad yw'r cynllun yn llety penodol, lle gellir hawlio budd-dal tai yn lle hynny) - Grant Cymorth Tai - Perchnogaeth
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	Monitro dan y broses Grant Cymorth Tai os yw'n derbyn y grant

Hostelau	
Gelwir hefyd yn	Lloches nos, llety â chymorth mynediad uniongyrchol
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl ifanc ddigartref - Pobl sy'n ddigartref ar y stryd - Pobl sy'n gadael carchar - Teuluoedd digartref
Math o wasanaeth/lefel cymorth	<ul style="list-style-type: none"> - Llety tymor byr neu gymorth argyfwng - Gall rhai gwasanaethau weithredu mewn ffordd debyg i fyw â chymorth, am gyfnodau hirach
Gwasanaethau a gynnigir fel arfer	<p>Cymorth holistig dan arweiniad anghenion ac yn canoli ar y person i symud ymlaen i gartref tymor hirach. Gall gynnwys cefnogaeth gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Trin arian a threfnu cyllideb - Hawlio budd-daliadau lles - Cael mynediad i wasanaethau eraill - Mynediad i gyfleoedd hamdden, sgiliau a chyflogaeth - Gwella ansawdd bywyd a llesiant - Atgyfeirio i wasanaethau eraill lle'n briodol - Cymorth cyn-tenantiaeth a sefydlu tenantiaeth ar gyfer Symud Ymlaen
Daliadaeth	Yn gyffredinol, trwyddedau (un ai warchoddedig neu eithriedig) i adlewyrchu natur tymor byr yr arhosiad
Staffio	Gall fod yn 24/7 neu amserau/oriau penodol
Mynediad	Amrywio. Gall fod yn ddrws blaen eu hunain neu rannu mynedfa.
Hunangynwysedig	Gall fod yn dai rhannu, unedau hunangynwysedig neu lety gwasgaredig.
Gofodau cymunol	Cyfleusterau paratoi bwyd a rhannu ystafelloedd ymolchi.
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Budd-dal Tai (fel llety penodol fel arfer) - Grant Cymorth Tai - Cyllid elusennol
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	Monitro drwy brosesau Grant Cymorth Tai

Llochesi	
Gelwir hefyd yn	Tai diogel
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	Pobl a theuluoedd sy'n ffoi rhag cam-drin domestig a thrais
Math o wasanaeth/lefel cymorth	Llety argyfwng/tymor byr
Gwasanaethau a gynnigir fel arfer	<p>Cymorth holistig dan arweiniad anghenion ac yn canoli ar y person i symud ymlaen i gartref tymor hirach. Gall gynnwys cefnogaeth gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwaith achub bywyd ac ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - Canfod ffordd drwy'r system cyfiawnder - Ar gyfer plant a phobl ifanc - Trin arian a threfnu cyllideb - Hawlio budd-daliadau lles - Cael mynediad i wasanaethau eraill - Mynediad i gyfleoedd hamdden, sgiliau a chyflogaeth - Cymorth i wella ansawdd bywyd a llesiant - Atgyfeirio at wasanaethau eraill lle'n briodol - Cymorth cyn-tenantiaeth a sefydlu tenantiaeth ar gyfer Symud Ymlaen
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Trwyddedau fel arfer neu denantiaethau byrddaliol sicr (os cânt eu rheoli gan landlord cymdeithasol cofrestredig neu elusen), yn adlewyrchu natur dros dro yr arhosiad - Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym, bydd llochesi yn bennaf yn defnyddio trwyddedau neu'r contract â chymorth safonol.
Staffio	Gall fod yn 24/7 neu amserau/oriau penodol
Mynediad	Amrywio. Gall fod â'u drws blaen eu hunain neu rannu mynedfa
Hunangynwysedig	Gall fod yn dai rhannu, unedau hunangynwysedig neu lety gwasgaredig
Gofodau cymunol	Ceginau, ystafelloedd ymolchi, ardaloedd byw, ystafelloedd chwarae ar gyfer plant
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Budd-dal Tai (fel llety a fanylir fel arfer) - Grant Cymorth Tai - Cyllid penodol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	Monitro drwy brosesau Grant Cymorth Tai

Mathau eraill o Lety â Chymorth

Gelwir hefyd yn	Llety â chymorth cyffredinol
Defnyddwyr gwasanaeth nodweddiadol	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl yn gadael digartrefedd gydag anghenion cymorth - Ymadawyr gofal a phobl ifanc yn gadael diweithdra - Pobl gydag afiechyd meddwl neu dementia - Pobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau - Cyn-droseddwyr
Math o wasanaeth/lefel cymorth	Yn gyffredinol hyd at ddwy flynedd gyda gwahanol ddwyster cymorth
Gwasanaethau a gynigir fel arfer	<ul style="list-style-type: none"> - Cymorth gyda phroblemau emosiynol - Trin arian a threfnu cyllideb; hawlio budd-daliadau lles - Cael mynediad i wasanaethau eraill e.e. iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau - Gweithgareddau amgen (campfa, hobiau ac yn y blaen) i gynnal iechyd a llesiant - Mynediad i gyfleoedd hamdden, sgiliau a chyflogaeth - Cymorth cyn-tenantiaeth a sefydlu tenantiaeth ar gyfer Symud Ymlaen - Gwella ansawdd bywyd a llesiant - Atgyfeirio at wasanaethau eraill lle'n briodol
Daliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> - Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, elusennau a darparwyr preifat: trwyddedau, tenantiaeth sicr neu denantiaeth fyrddaliol sicr (yn dibynnu os yn hunangynwysedig neu rannu) - Awdurdodau lleol: trwyddedau neu denantiaethau sicr - Pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) i rym, gellir defnyddio ystod o gontractau/trwyddedau meddiannaeth, yn dibynnu ar hyd yr arhosiad ac ati. Mae hyn yn cynnwys: trwydded, contract diogel, contract safonol a contract â chymorth penodol.
Staffio	Gall fod yn 24/7 neu amserau/oriau penodol
Mynediad	Amrywio. Gall fod â'u drws blaen eu hunain neu rannu mynedfa
Hunangynwysedig	Gall fod yn dai rhannu, unedau hunangynwysedig o fewn bloc neu dai gwasgaredig
Gofodau cymunol	<ul style="list-style-type: none"> - Fel arfer ceginau, ystafelloedd bwyta, ystafelloedd ymolchi ac ardaloedd byw - (Weithiau) ystafelloedd gweithgaredd neu hyfforddiant
Cyllid Refeniw	<ul style="list-style-type: none"> - Budd-dal Tai (fel llety a fanylir fel arfer) - Grant Cymorth Tai - Ar gyfer rhai ymadawyr gofal, cyllid drwy awdurdod lleol
Rheoleiddio, monitro a/neu arolygu	Monitro drwy brosesau Grant Cymorth Tai

Atodiad A – Modelau Hanesyddol

Mae modelau hanesyddol tai â chymorth wedi gadael gwaddol o dermau y mae rhai gweithwyr tai/gofal yn dal i'w defnyddio heddiw.

Yn 1969 gosododd cylchlythyr gan y Weinyddiaeth Tai a Llywodraeth Leol safonau ar gyfer tai gwarchod a chyflwyno cysyniadau categori 1 a chategori 2. Mae'r nodweddion allweddol fel sy'n dilyn:

Tai gwarchod Categori 1:

- Mae cyfleusterau cymunol a warden preswyl yn opsiynol
- Gall fod â system larwm
- Gall anheddau fod yn fyngalos yn ogystal â fflatiau
- Ni chaiff lifftiau eu darparu fel arfer
- Bwriedir ar gyfer pobl oedrannus cymharol annibynnol

Tai gwarchod Categori 2:

- Mae cyfleusterau cymunol, wardeiniaid preswyl a lifftiau yn orfodol
- Mae ganddynt system larwm fel arfer
- Mae anheddau yn fflatiau dan un to
- Bwriedir ar gyfer pobl oedrannus a/neu anabl mwy dibynnol

Ni fu'r cylchlythyr hwn yn orfodol ers 1980, ond mae modelau Categori 1 a 2 yn dal i weithredu ar draws y Deyrnas Unedig.^{3,4}

Yn ystod y 1980au, dechreuodd rhai awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig adeiladu tai Categori 2.5 ar gyfer pobl oedrannus lesg a phobl sydd angen gofal personol mwy parhaus. Galwyd tai gwarchod Categori 2.5 hefyd yn 'dai gwarchod ychwanegol' a 'thai gofal ychwanegol'.⁵

³ [Hansard Tŷ'r Cyffredin Dadleuol 14 Mehefin 2000 \(rhan 5\)](#)

⁴ [Sefydliad Gofal Cyhoeddus Tai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru: adolygiad y sector o dai gwarchod Ionawr 2017](#)

⁵ [From Sheltered Housing to Lifetime Homes: an inclusive approach to housing. Dr. Julianne Hanson, 2001](#)

Atodiad B – Cymorth fel y bo’r Angen

Mae Cymorth fel y bo’r Angen (a elwir weithiau yn gymorth cynnal tenantiaeth) yn dod o fewn ymbarél eang tai â chymorth ond **nid yw’n cynnwys elfen llety**. Mae’n dilyn yr unigolyn yn hytrach na’u cartref, gan olygu na chaiff y cymorth ei atal os yw’r person yn colli eu tenantiaeth neu’n gorfod gadael eu cartref. Fel arfer caiff ei gyllido drwy’r Grant Cymorth Tai.

Mae’r gwasanaeth yn cefnogi oedolion (16+ oed) sydd mewn risg uchel o golli eu cartref, beth bynnag yw’r math o ddaliadaeth neu lety. Mae cymorth yn gyffredinol am dymor byr ac yn cynnwys gweithiwr cymorth yn ymweld â’r person yn eu cartref eu hunain neu gerllaw.

Nod Cymorth fel y bo’r Angen yw helpu’r person i ddatblygu’r sgiliau maent eu hangen i fyw’n annibynnol a chadw cartref yn llwyddiannus.

Gall hyn gynnwys:

- Sefydlu a chynnal cartref neu denantiaeth
- Atal neu drin bygythiad o ddigartref
- Trin arian a threfnu cyllideb
- Hawlio budd-daliadau lles
- Cael mynediad i wasanaethau eraill
- Help i wneud yn siŵr fod y llety yn ddiogel a saf
- Mynediad i gyfleoedd hamdden, sgiliau a chyflogaeth
- Gwasanaethau trais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol ar gyfer pobl sy’n ffoi rhag cam-drin domestig a thrais

Gallai pobl sy’n cael mynediad i wasanaeth Cymorth fel y bo’r Angen gynnwys:

- Pobl ifanc
- Pobl ifanc sy’n gadael gofal
- Pobl ddigartref
- Pobl yn ffoi rhag cam-drin domestig a thrais
- Cyn-droseddwy
- Pobl gyda salwch meddwl
- Pobl gydag anabledau corfforol neu ddysgu
- Pobl yn cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau

Atodiad C – Tai yn Gyntaf

Mae Tai yn Gyntaf yn dull gweithredu gyda ffocws ar adferiad i ddod i ddiartrefedd ar ben, sy'n canolbwyntio ar symud pobl sy'n profi diartrefedd i gartrefi annibynnol a pharhaol, ac yna'n darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol fel sydd angen. Cafodd y cysyniad ei ddefnyddio'n fwyaf penodol gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd neu o leiaf ar gyrion hynny, ac sydd ag anghenion cymorth cronig a chymhleth.⁶ Drwy sicrhau fod gan bobl sy'n profi'r problemau hyn rywle i'w alw yn gartref, yn hytrach na llety dros dro, maent mewn sefyllfa well i ymgysylltu gyda chefnogaeth ddwys, er nad yw'n rhaid iddynt wneud hynny fel amod cyn symud i lety.

Mae cynlluniau Tai yn Gyntaf yn darparu **llety hirdymor** (fel arfer rhannu fflat/fflat sengl, a dim yn rhan o sefydliad) gyda **chymorth dwys, hyblyg** heb ei gyfyngu o ran amser. Caiff llety ei osod drwy'r un denantiaeth ag y byddai landlord yn ei chynnig i denant anghenion cyffredinol.

Gall y cymorth a roddir fod yn eang a bydd yn cynnwys gwahanol asiantaethau yn ogystal â'r darparwydd cymorth. Gallai gynnwys cymorth gyda phroblemau iechyd neu iechyd meddwl, problemau gyda chamddefnyddio sylweddau, cynnal tenantiaeth a sgiliau bywyd.

Caiff cynlluniau eu monitro drwy brosesau Grant Cymorth Tai, a gallant gael eu cyllido drwy:

- Budd-dal Tai (neu Gredyd Cynhwysol os na chaiff llety ei fanylu)
- Grant Cymorth Tai
- Gwahanol gyllid ychwanegol yn gysylltiedig â Tai yn Gyntaf

Gallai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Tai yn Gyntaf gynnwys:

- Pobl gydag anghenion uchel a chymhleth
- Pobl sy'n ddiartref stryd cronig
- Pobl na all fanteisio o hostel neu sefydliad rhannu dros dro arall

Mae egwyddorion ar wahân ac ystyriaethau ychwanegol ar gyfer Tai yn Gyntaf ar gyfer leuenctid/Pobl Ifanc:

- Gall fod angen gwahanol fathau o lety oherwydd y gall fod pobl ifanc angen rhannu llety ac yn y blaen;
- Mae'r cymorth yn eistedd gyda'r person ifanc fel unigolyn, ac nid y llety
- Dylai gweithwyr cymorth sy'n darparu Tai yn Gyntaf ar gyfer leuenctid fod yn arbenigwyr mewn gweithio gyda phobl ifanc, ac nid yn weithwyr cymorth cyffredinol.⁷

⁶ [Egwyddorion Tai yn Gyntaf: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol Chwefror 2018](#)

⁷ <https://www.cymorthcymru.org.uk/en/news-blog/news/housing-first-youth>

Atodiad D – Llety dros dro

Mae llety dros dro yn disgrifio tai a sicrhawyd i ddarparu llety ar gyfer pobl sy'n ddigartref ond lle **nad oes cymorth wedi'i gynnig fel rhan o'r llety**. Gall preswylwyr llety dros dro fod yn derbyn cymorth fel y bo'r angen neu gymorth arall ond nid yw hynny'n rhan o'r llety. Mae pobl sy'n byw mewn llety dros dro yn dal i fod yn statudol ddigartref.

Gall llety dros dro fod ar ffurf llety sector rhent preifat neu dai rhent cymdeithasol ac, mewn rhai achosion, leoliadau gwely a brecwast/gwesty.

Mewn rhai diffiniadau, caiff hostelau a llochesi eu dosbarthu fel llety dros dro yn ogystal â llety â chymorth. Fodd bynnag, nid yw pob llety dros dro yn llety â chymorth (e.e. lleoliadau Gwely a Brecwast ac yn y blaen).

Atodiad E – Llety Penodol⁸

Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Rheoliadau Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol (Tai â Chymorth) (Diwygiad) 2014 ('y Rheoliadau'), a greodd categori newydd o 'lety penodol'. Mewn llety o'r fath, caiff help gyda'r rhent ei eithrio o'r cap budd-dal cyffredinol a'r Credyd Cynhwysol.

Mae llety penodol bob amser yn cynnwys elfen o ofal, cymorth a goruchwyliaeth. Gellir felly dybio y byddai unrhyw lety a gaiff ei ddsbarthu fel *penodol* yn cyfrif fel tai â chymorth. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion ni chaiff llety â chymorth ei ddsbarthu fel *penodol* am ba bynnag reswm; canfu'r Adolygiad o Lety â Chymorth mai dim ond 18% o lety â chymorth yng Nghymru oedd yn llety penodol (fel yng nghasgliad data 2015).⁹ Ni ellir felly ddefnyddio llety penodol fel diffiniad cynhwysfawr o p'un yw llety yn lety â chymorth ai peidio.

Gall prosiect ddod o fewn mwy nag un o'r pedwar categori o lety penodol.

1. Llety eithriedig

Eithriwyd o:

- Budd-dal Tai wedi'i gyfrif ar llai na'r rhent llawn (llai'r taliadau gwasanaeth anghymwys)
- Cap budd-dal aelwydydd
- Meini prawf ar faint tai cymdeithasol (treth ystafell wely)
- Trefniadau costau tai Credyd Cynhwysol – wedi'u cyfrif a'u talu'n fisol fel ôl-daliad.

Nid yw ond yn cynnwys hawlwr mewn llety lle mae'r landlord hefyd yn darparu gofal, cymorth neu oruchwyliaeth i'r landlord – hyd yn oed os drwy is-gontractwr.

2. Tai â chymorth lle nad yw'r landlord yn darparu'r gofal, cymorth na goruchwyliaeth

Yn debyg i'r diffiniad o lety eithriedig, heblaw

- Nid yw o bwys pwy sy'n darparu gofal, cymorth neu ddarpariaeth i'r hawlwr.
- Rhaid i'r hawlwr fod wedi eu 'derbyn' i'r llety 'er mwyn diwallu angen am ofal, cymorth neu oruchwyliaeth' – felly dim ond i bobl a symudodd i lety â chymorth y mae'n berthnasol, nid i bobl mewn llety anghenion cyffredinol sydd yn ddiweddarach yn cael pecyn o ofal neu gymorth.

Mae'n cynnwys hawlwr gyda'r un landlordiaid â llety eithriedig, ond nid rhai y mae eu landlord yn awdurdod tai neu'n unigolyn neu sefydliad preifat er-elw.

⁸ [Briefing: Specified Accommodation Definition, National Housing Federation, Awst 2018](#)

⁹ [Supported accommodation review: The scale, scope and cost of the supported housing sector, Tachwedd 2016](#)

3. Llochesi trais domestig

- Mae'n cynnwys llety a ddarperir gan awdurdod tai lleol yn ogystal â'r landlordiaid hynny a nodir uchod.
- Mae'n rhaid i'r llety gynnwys adeilad neu ran o adeilad a gaiff ei ddefnyddio'n llwyr neu'n bennaf ar gyfer llety heb fod yn barhaol ar gyfer pobl sydd wedi gadael eu cartrefi fel canlyniad i drais domestig
- Nid oes unrhyw ofyniad fod yr hawliwr angen neu'n derbyn unrhyw ofal, cymorth neu oruchwyliaeth

4. Tai â chymorth heb fod yn hunangynwysedig gan awdurdodau tai (e.e. hostelau)

Mae diogeliad rhag costau tai Credyd Cynhwysol a'r cap budd-daliadau i aelwydydd yn ymestyn i dai â chymorth awdurdod tai – ond dim ond os nad yw llety'r hawliwr heb fod yn hunangynwysedig.

Yn gyffredinol mae hunangynwysedig yn golygu fod yn rhaid i'r hawliwr fod â chyfleusterau yn eu hannedd eu hunain ar gyfer:

- Bwyta
- Cysgu
- Coginio – os na, efallai, y darperir yr holl brydau bwyd
- Golchi – y person, nid dim ond toiled a basin llaw yr hawliwr ei hunan.

Mae'r newidiadau diweddar i fudd-daliadau yn golygu:

- **Cap budd-dal tai** – ers i'r Rheoliadau ddod i rym, cafodd pobl sy'n hawlio budd-dal tai yng nghyswllt llety penodol (yn ogystal â llety eithriedig) eu hanwybyddu ar gyfer dibenion y cap budd-daliadau
- **Meini prawf ar faint (y 'dreth ystafelloedd gwely')** – ni chaiff categorïau 2, 3 a 4 uchod eu diogelu rhag y dreth ystafelloedd gwely oherwydd y caiff budd-dal tai ei asesu dan reolau arferol budd-dal tai ar gyfer tai cymdeithasol, yn wahanol i 'lety eithriedig' lle nad yw'r meini prawf ar faint yn weithredol
- **Credyd Cynhwysol** – ni ellir talu costau tai ar gyfer y rhai sy'n byw mewn 'llety penodol' drwy Credyd Cynhwysol a rhaid ei dalu drwy fudd-dal tai yn lle hynny. Gall tenant ddal i dderbyn Credyd Cynhwysol ond ni fydd ganddo unrhyw hawl i help gyda chostau tai mewn Credyd Cynhwysol a bydd yn rhaid gwneud hawliad ar wahân am fudd-dal tai i dalu am gost y rhent.